

Hybu'r Gymraeg



Siôn Tomos Owen yn arwain criw o ddysgwyr i lecynnau hanesyddol tref Pontypridd.

Trefnwyd nifer o weithgareddau dros benwythnos canol mis Chwefror i hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal. Ar y dydd Sadwrn daeth nifer o fudiadau at ei gilydd i ddangos y cyfleoedd sydd i gael i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, Ymbweru Bro, Dysgu Cymraeg Morgannwg a Chlwb y Bont wedi trefnu Ffair y Gymraeg gyda pymtheg o fudiadau Rhondda Cynon Taf i ddangos y dewis eang o weithgareddau sydd ar gael.

Yn ogystal trefnwyd Taith Gerdded Hanes Pontypridd yng nghwmni Siôn Tomos Owen a sesiwn o ganu gwerin gydag Antwn Owen-Hicks, Dysgwr y Flwyddyn 2024.

Ysgol Gymraeg Newydd

Mae Cabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cymeradwyo cynllun i adeiladu ysgol Gymraeg newydd fel rhan o ddatblygiad ar dir yn Llanilid ger Llanharan.

Mae datblygwyr ar fin cychwyn ar y gwaith o adeiladu 1850 o dai ar yr hen safle glo brig a bydd yr ysgol yn cael ei gwblhau erbyn 2027.

Er fod croeso i'r darpariaeth addysg Gymraeg newydd mae'r cyngor yn bwriadu cau yr Uned Gymraeg sy'n rhan o Ysgol Dolau. Mae cryn bryder am effaith hyn ar y trigolion lleol sy'n dewis danfon eu plant i'r Uned Gymraeg yn y Dolau ac mae Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn galw ar y Cyngor i ail-ystyried eu penderfyniad i gau'r Uned.

Ennill!

Llongyfarchiadau i'r ddau frawd Emanuel - Steffan (Canolwr) ac Ioan (Prop) fu'n rhan o dîm Dan 20 Cymru oedd yn fuddugol 20 - 12 yn erbyn y Gwyddelod yn Rodney Parade, Casnewydd.



Diolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion gymerodd rhan yn y #CwisDimClem a drefnwyd gan y Menter Iaith. Yn dilyn rowndiau lleol (agos iawn) Rhondda, Cynon, Taf ac Elai bydd Llwynycelyn, Garth Olwg, Abercynon a Llantrisant yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol! Da iawn i bob un o'r timoedd. Rydych chi wedi bod yn wych.

Cau Cylch Meithrin ond Ail-agor Ti a Fi

Fel sy'n arferol ar ddechrau blwyddyn, mae rhai drysau yn cau ac eraill yn agor. Mae pwyllgor ac ymddiriedolwyr Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton wedi dod i'r penderfyniad anodd nad yw'n bosib i barhau i redeg, a hynny am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth.

Fel nifer o elusennau bach eraill sy'n ceisio goroesi yn yr hinsawdd economaidd dyrus hwn, gan wynebu nifer o heriau cenedlaethol amgenach, roedd yn amlwg bod dyfodol y Cylch yn anghynladwy a thu hwnt i allu tîm bychan iawn o wirfoddolwyr i'w gynnal.

Dros y chwe blynedd diwethaf mae criw bychan wedi gweithio ar y freuddwyd o sefydlu'r Cylch Meithrin er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu yng Nghilfynydd yn dilyn y penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton.

Mae yr hyn a lwyddwyd i'w gyflawni i'w drysori ac mae'r diolch yn ddiwyll i'r staff ymroddedig a roddodd gymaint o gyfleon amhrisiadwy i blant bach Cilfynydd i allu mwynhau a chael profiadau yn y Gymraeg yn ystod eu blynyddoedd cynnar allweddol. O egin freuddwyd i gael eu henwi yn Gylych Meithrin Bach Gorau Cymru yng Ngwobrau Mudiad Meithrin llynedd, bu'n daith fythgofiadwy!

Ac wrth i un drws gau, bydd un arall yn agor wrth ail-ddechrau Cylch Ti a Fi Cilfynydd a Phont Norton ar ddydd Llun, Mawrth 10fed gydag Anti Louise.

Hoffai Pwyllgor y Cylch - Eurgain, Angela, Lowri, Hywel, Rachel, Louise a Cerys ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Ebrill
i gyrraedd erbyn
28 Mawrth 2025

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
<http://www.tafodelai.cymru>

Argraffwyr:



EVANPRINT

www.evanprint.co.uk

CYMRAG

*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

**Gwasanaeth addurno,
peintio a phapuro**

Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol
ar gyfer eich cartref
neu fusnes**

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

**I gael pris am unrhyw
waith addurno**



Merched y Wawr Cangen y Garth



Braint oedd cael bod yn bresennol yn y Clwb Rygbi p'nawn Mercher y 19eg - i gael gwerthfawrogi afaeth a brwdfrydedd y Bonwr Alun Wyn Bevan wrth iddo'n cyflwyno hanes dynes hollol anhygoel o'r enw Winifred Coombe Tennant. 'Chydyd iawn ohonom oedd wedi clywed amdani - heblaw sôn am wybod ei hanes.

Mae tarddiad diddordeb Alun Wyn yn ddifyr ynddo'i hunan. Galwad ffôn gan Rob Nicholls o'r BBC - yn gofyn i Alun am ddod i siarad am y ledi arbennig yma - Winifred - oedd yn arfer byw ond 250 o lathenni i ffwrdd o gartref Alun Wyn ar y pryd! Ac yntau â thrwyn am stori - fe ufuddhaodd Alun Wyn - a syrthio mewn cariad â'r hanes a gwneud gwaith ymchwil clodwiw ar y testun.

Ganed Winifred yn Stroud, ar y cynta o Dachwedd, 1874 - i Saesnes o fam, sef Amy Richardson ond roedd gan y tad George Edward Sercold Pierce Sercold - ie, 'dw i wedi cofio'r enw - gysylltiadau ag Abertawe a'r ardal. Roedd yn berchennog tîr a llongau - ac yn w'r dylanwadol iawn.

Ym 1895 wedi carwriaeth fer - priodododd Winifred efo Charles Coombe Tennant cwta fisoedd wedi ei gyfarfod ar lan Llyn Como. Mae'n stori wych! Os am wybod mwy - gwahodder Mr Alun Wyn Bevan i'ch plith i rannu'r stori'n llawn. Ond yr hyn a gofiwn am Winifred yw ei bod yn ddynes alluog, yn ieithydd brwd, yn noddwraig i'r celfyddydau, yn Feistres y Gwisgoedd Eisteddfod Castell-Nedd ym 1918, yn fam i bedwar, yn ffrind i bobol megis Lloyd George, Michael Collins a Gerald Balfour.



Gyda Lloyd George yn Eisteddfod 1918

Roedd yn daer dros degwch, hawliau dynol, annibyniaeth a hunan reolaeth. Ac ar hyn o bryd, does dim math o goffâd iddi yma yng Nghymru. Sobor! Diolch o galon Alun Wyn am ein cyflwyno i Winifred Coombe Tennant.

Cyfarfod nesa - nos Iau, Mawrth 20fed am 8 - yng Nghlwb Rygbi, Pentyrch - yr awdur, y bardd a'r dramodydd - Dafydd James. Dewch yn llw. Noson yng nghalendar Cadwgan.



**CLWB Y
DWRLYN**

**Noson Gerddorol
Côr Merched Plastaf**

**Nos Iau
10 Ebrill 2025
am 8.00yh
Clwb Rygbi Pentyrch**

Manylion pellach:
clwbbydwrllyn@pentyrch.cymru



**CYLCH
CADWGAN**

**Y dramodydd a'r nofelydd,
Dafydd James
yn trafod ei waith**

**Nos Iau,
20 Mawrth 2025
am 8.00yh**

Clwb Rygbi Pentyrch

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Eifion Glyn a'r teulu wedi i Eifion golli ei chwaer hŷn, Tabi, a oedd fel ail fam ac yn annwyl iawn ganddo.

Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Huw Llywelyn Davies wedi iddo ddathlu penblwydd arbennig iawn ym mis Chwefror.



Braf oedd gweld Owain Tudur Jones a chriw teledu Heno yn galw draw yn Heol y Parc gyda potel o siampên a bocs o beli golff i ddymuno penblwydd hapus i Huw.



Clwb y Dwrllyn

Fy Milltir Sgwâr oedd teitl cyfarfod mis Chwefror Clwb y Dwrllyn a daeth tyrfa dda i Glwb Rygbi Pentyrch i glywed cyflwyniadau gan dri o'r aelodau – Peter Griffiths, Colin Williams ac Emlyn Davies.

Tywysodd Peter y gynulleidfa i fro ei febyd o gwmpas Bancffosfelen, ardal ar y ffin rhwng y Sir Gaerfyrddin

PONTYPRIDD

Gohebwy: Siân a Mike Ebbsworth

Colled

Yn ddiweddar, bu farw Ifan Davies yn 35 mlwydd oed. Yn unig fab i Iwan ac Ann Davies, Graigwen Place, Pontypridd. Roedd Ifan yn gyn-ddisgybl Ysgol Evan James, a Rhydfelen. Estynwn ein cydymdeimlad atyn nhw.

Congrinero

Unwaith eto fe ddenodd cynhyrchiad diweddera Cwmni Mewn Cymeriad gynulleidfa ardderchog i fwynhau perfformiad penigamp Siôn Emyr fel T H Parry Williams yng Nghlwb y Bont. Roedd llwyfannu syml Janet Aethwy, a

wledig a'r diwydiannol - y ffin rhwng y Gwendraeth Fach a'r Gwendraeth Fawr. Gan rannu profiadau mebyd yn yr ysgol, yng Nghaban yr Urdd, y capel ac ar y cae pêl-droed cyfeiriodd at rai o arferion y fro. I gyfoethogi ei sylwadau cyflwynodd ddyfyniadau barddonol am yr ardal a'i diwylliant gan dynnu sylw yn arbennig at arwriaeth trigolion Llangyndeyrn yn atal codi cronfa ddŵr.

Taith o gwmpas Dinas Mawddwy gafwyd gan Colin a'i atgofion o'i fagwraeth yno. Cafwyd disgrifiad byw o nifer o gymeriadau'r fro gyda sawl stori ddifyr a digri amdanynt yn ogystal â'u cysylltiadau teuluol – tipyn o Who's Who o'r cylch. Tynnodd sylw at ragoriaethau daearyddol Dinas a'r cyffiniau; y mynyddoedd o'i gwmpas a'r cymoedd islaw - "an alpine village" fel ei disgrifiwyd gan un person - cyn oedi ychydig ger y "coleg" sef y ffatri wlân. Rhannodd rai o'i brofiadau yn gweithio yno a disgrifio natur y cynnyrch.

Canolbwyntio ar un aelod o'r teulu wnaeth Emlyn sef ei Daid, John Jones. Wedi ei eni a'i fagu yn Llŷn bu'n was fferm, yna yn llongwr cyn mynd yn chwarelwr. Ar sail ei ymchwil adroddodd Emlyn hynt a helynt y llongau niferus y treuliodd ei Daid gyfnod arnynt, gyda llongddrylliadau ac mewn un achos llofruddiaeth. Treulid amser hir ar y môr, yn mynd o un porthladd i'r llall heb weld cartre. Yn ŵr diwylliedig, bywyd caled gafodd John Jones ac Emlyn yn falch iddo gael y cyfle i'w adnabod ac adrodd ei hanes.

Diolch i'r tri am noson ddiddorol a difyr.

phortreadu cynnil yr actor dawanus yn gweddu'r lleoliad yn berffaith.

Y Gymraeg yn Zucco!

Cafodd un o ddarllenwyr sgwrs hynod o ddiddorol mis diwethaf yn y caffï Eidalaid poblogaidd hwn. Ricky Wright oedd yn barod iawn i gael sgwrs yn y Gymraeg. Mae'n gyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Bronllwyn, Gelli ac Ysgol Gyfun y Cymer. Roedd yn ddyledus iawn i Meima Morse, Carwyn Arthur a Siân Cadifor, i enwi dim ond tri o'r staff. Yn ddiddorol iawn, fe wnaeth rannu ei brofiadau dros y pymtheg mlynedd diwethaf fel cyhoeddwr mewn gornestau paffio! Roedd yn teithio'r byd fel paffiwr yn ei ieuenctid cyn gafael yn y meicroffôn maes o law. Yn anffodus, nid acen Gymreig sydd i'w glywed gan y gŵr o Benygraig bellach, ond yr hyn y mae e'n ei alw'n acen 'mid-Atlantic'! Mae Ricky'n paratoi i deithio i Awstralia cyn hir.

Cacs a Chlonc

Cawsom aelodau Ferched y Wawr Pontypridd, wledd (esgusodwch y gair amwys) yng nghwmni Liz West. Bu Liz yn athrawes Arlwyo yn Llanhari, Rhydfelen a Gartholwg, cyn penderfynu roi'r 'llwy bren yn y to' yn ddiweddar. Bu'n adrodd straeon doniol a chynig cyngor tra'n addurno cacen, a chawsom flasu ei chynnyrch blasus dros banded. Mae Liz yn awyddus i ymuno â'r gangen ar ôl profi'r croeso twymgalon.



Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi ym mwyty Rustico nos Iau Mawrth 13eg.

Clwb Llyfrau

Ymunwch â'r grŵp am sgwrs ar fore Mercher, Mawrth 19eg am 10:30 yn Llyfrgell Pontypridd.

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Elusen Cŵn Tywys y Deillion

Llongyfarchiadau anferthol i ddisgyblion Cam Cynnydd 1 a 2 am gasglu £804 o bunnoedd ar gyfer Elusen Cŵn Tywys y Deillion. Cyflwynwyd y siec i Sue, Steve a Saxon gan aelodau o'r Cyngor Ysgol. Byddwn yn noddi tri ci gyda'r arian. Ymdrech glodwiw gan bawb!



Cyflwyno Siec o £804 i Gymdeithas Cwn Tywys y Deillion2

Gweithdy Mei Gwynedd

Bu Blwyddyn 3 yn gweithio'n galed yn eu gweithdy ysgrifennu cân gyda Mei Gwynedd. Seiliwyd geiriau'r gân ar stori y ddraig goch a'r ddraig wen. Maent nawr yn edrych ymlaen i glywed a pherfformio'r gân. Profiad gwych i'r plant



Gweithdai Pypedau

Diolch i Helyn o Theatr Bypedau Cymru am ddod i gynnal gweithdy pypedau



cysgod gyda disgyblion Cam Cynnydd 1 a 2. Roedd y plant wedi cael cyfle i wyluo sioe bypedau, creu eu pypedau eu hunain a pherfformio gyda'u pyped. Roedd y plant wedi mwynhau mas draw!

Blwyddyn 5 yn Ysgol Llanhari

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 gyfle i ymweld ag Ysgol Llanhari fel rhan o gynllun trosglwyddo'r clwstwr. Gwynebwyd llawer o dasgau heriol a hwyliog gan y plant ac roeddnt wedi cael diwrnod llawn hwyl.



Tîm Pêl Rwyd y Merched

Cafwyd ymdrech arbennig gan ferched y tîm pêl-rwyd yn nhwrnament yr Urdd â gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr iddynt am eu gwaith caled.



Dydd Miwsig Cymru

Diolch i'r Criw Cymraeg am drefnu cyfres o ddisgos i ddatlu dydd Miwsig

Cymru. Roedd pawb wrth eu boddau yn cyd-ganu a dawnsio i'r caneuon.

Cystadleuaeth Trampolînio

Llongyfarchiadau mawr i Erin Larkman a ddaeth yn gyntaf yn ei chategori yng Nghystadleuaeth Trampolîn 'The Central Zone 2025' a gynhaliwyd yn Hinckley yng Ngwlad yr Haf yn ddiweddar. Rydym yn hynod falch o'i champ!.



Chwedlau

Fel rhan o'u gwaith ar y thema 'Chwedlau' cafodd disgyblion Blwyddyn 4 - 6 weld perfformiad o'r sioe 'Y Mabinogion' gan gwmi Mewn Cymeriad. Diolch i Dyfed Cynan am ei berfformiad wnaeth ysbrydoli'r plant.



Cyngor Eco

Treuliodd aelodau'r Cyngor Eco fore diddorol iawn yn dysgu am bwysigrwydd ail-gylchu tra'n ymweld â Chanolfan Ail-Gylchu Bryn Pica yn ddiweddar. Mae'r ymweliad yn rhan o waith y Cyngor Eco ar hyrwyddo mwy o ailgylchu ymysg disgyblion yr ysgol.

Parhad tudalen 5 >



Dathlu 200 mlynedd y Rheilffordd

Y gwanwyn hwn bydd Al Lewis, y canwr/cyfansoddwr dwyieithog o Ben Llyn, yn cychwyn ar daith unigryw mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru; wrth iddo ymweld â threfi a dinasoedd ar hyd rhwydwaith rheilffyrdd odidog Cymru.

Gyda 2025 yn dynodi 200 mlynedd ers sefydlu'r rheilffordd fodern; bydd Al nid yn unig yn ymweld a rhannau newydd o'r wlad, ond hefyd yn ymarfer dull fwy amgylcheddol a chymdeithasol o deithio, gan ddangos sut y gall cerddorion wneud eu rhan i helpu ni i leihau ein hól troed carbon. Mi fydd Al yn dod â'i gyfuniad o gerddoriaeth Gymraeg a Saesneg i leoliadau cyfareddol fel y Neuadd Bentref ym Mhortmeirion ag Eglwys syfrdanol Sant Tudno ar ben y Gogarth yn Llandudno.


Mae'r daith yn dilyn cyfres hynod lwyddiannus o sioeau wnaeth Al dros gyfnod y 'Dolig lle werthwyd pob tocyn ar gyfer lleoliadau ledled Cymru o Galeri yng Nghaernarfon i ddwy noson yn Eglwys Sant Ioan, Caerdydd.

Mae Al wedi rhyddhau sawl albwm, wedi ennill Cân + Albwm Gorau yng Ngwobrau Americana y DU (fel rhan o Lewis & Leigh) wedi'i enwebu ar gyfer y Wobr Gerddoriaeth Gymreig, Albwm Gymraeg y Flwyddyn a Gwobrau Gwerin Cymru.

Ei seagl yn seiliedig ar stori Dylan Thomas, 'A Child's Christmas in Wales' oedd y gân gyntaf i'w chanu'n rhannol yn Gymraeg i'w gwneud hi ar restr chwarae BBC Radio 2 ac ers hynny mae artistiaid mor amrywiol â Gary Barlow a John Owen Jones wedi gwneud ferisynau ohonni.

Roedd ei albwm 2020 'Te yn y Grug' yn ddarn cysyniadol corawl-gwerin a ysgrifennwyd yn wreiddiol ar gyfer y sioe gerdd o'r un enw ac fe'i perfformiwyd yn y pafiliwn ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2019.

Bydd Noson Al Lewis yng Nghlwb y Bont nos Iau 8 Mai.




CLWB Y BONT, 85A TAFF ST, PONTYPRIDD. CF37 4SL

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail (parhad)

Roedd ganddynt stondin ail-gylchu teganau yn Ffair Nadolig yr ysgol eleni. Maent hefyd wedi bod wrthi yn brysur yn casglu hen gerdiau Nadolig i'w ailgylchu fel rhan o her ailgylchu Rhondda Cynon Taf.





3 Drama

3 awdur + 3 drama = 5 actor + 9 cymeriad

99'er

gan Ceri Ashe


Dishgled 'da Del


gan Cai Llewelyn Evans


Wisgi


gan Carwyn Blayney


Cast


Gareth


Elena


Siôn


Mark


Mall




Cylfaryddio: Betsan Llwyd / Gareth John Bale

This is a Welsh language production. English précis will be available.
Canllaw oed/ Age guidance 14+. Beth defnyddio o iaith gref/ Some use of strong language.

The Paget Rooms, Penarth

Nos Wener | 11-04-25 | 7:30

Tocynnau - <https://is.gd/uX4A7D>

Facebook: @theatrbaraaws

Instagram: @theatrbaraaws

Twitter: @theatrbaraws


CANOLFAN YR OLWG CENTRE

Heol Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF33 1RQ

Mewn Cymeriad yn cyflwyno

Roald Dahl - Dychmygwch!


gan Anni Llyn



Mae Alf yn gymeriad lliwgar, diddorol, sy'n CARU darllen. Yn ei got amryliw, sy'n llond pociedi ar gyfer ei lyfrau, bydd Alf yn rhannu gyda'r plant ei gariad tuag at ddarllen, ac yn datgelu'r anturiaethau sy'n digwydd iddo pan mae'n dechrau darllen. Ei hoff awdur yn y byd yw Roald Dahl.


Dydd Mawrth, 15ed Ebrill
10:30yb (Cymraeg)

Tocyn - £5:00
Tocyn teulu - £15



Cysylltwch y ganolfan am fwy o wybodaeth!

www.rct-theatres.co.uk Yr Olwg
01443 570075



EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Y Tabernacl

Bore Brechwast

Cynhaliwyd Bore Brechwast llwyddiannus iawn yn Neuadd y Pentref ar fore Sul, Chwefror 9fed cyn yr Oedfa yn y capel. Daeth nifer dda o bobl ynghyd, ac yn ôl pob hanes roedd pawb wedi eu plesio'n fawr gyda'r arlwy. Codwyd £406 at Elusen Ganser Syr Gareth Edwards sef elusen Y Twmiaid eleni. Llongyfarchiadau a diolch i Eleri Mai a'r rhai fu'n coginio a helpu.

Dathliadau Gŵyl Dewi Tabernacl

Dewch am baned a sgwrs i ddathlu Gŵyl Dewi fore dydd Mawrth, 4ydd Mawrth i Ganolfan y Tabernacl i'r Bore Coffi. Cewch gymdeithas gyfeillgar a hamddenol a phaned hyfryd rhwng hanner awr wedi 10 a hanner dydd.

Digwyddiad arall i ddathlu dydd ein nawddsant, er ychydig yn hwyr yn y mis fydd y cyfle i fynd i Neuadd y Pentref am Gawl a Phwddin syth ar ôl Oedfa'r Bore Fawrth 23ain. Cynhelir Cwis a Chystadleuaeth i'r plant.

Elusennau'r Tabernacl

Yr elusennau y bydd yr eglwys yn eu cefnogi eleni fydd Cymorth i ferched Cymru, Gofalwyr Ifanc Rhondda, Cynon Taf, Carmel Blaenllechau, Elusen Syr Gareth Edwards, a Banciau Bywd Taf Elái a Salem Tonteg.

Cydymdeimlo

Cynhaliwyd angladd Mrs Myra Davies, Radur yn y Tabernacl brynhawn dydd Mawrth, Chwefror 18fed. A Myra'n nesu at ei phen-blwydd yn 95 oed mi ddaeth cynulleidfâ gref i'r capel i ffarwelio â hi. Roedd yn enedigol o Ferthyr, ac ar ôl treulio cyfnod yn dysgu yn Lloegr a chyfnod ym Mangor pan oedd Bryn ei diweddar wr yn darlithio yn y Coleg, fe symudodd y ddau yn ôl i'r de i fod yn agosach at Bethan a'r teulu. Talodd Marian Ifans o Radur, ffrind annwyl iawn i Myra deyrnged hyfryd iddi gan sôn am ei dawn arbennig yn creu gwaith tapestri a chroesbwyth. Mi wnaeth Carwyn ac Eleri, wŷr ac wyres Myra ddarllen cerdd bob un er cof am ei Mam-gu. Cafwyd teyrnged arbennig gan Alun, ei mab yng nghyfraith syn sôn am y parch a'r agosatrwydd oedd rhwng y ddau. Gweinyddwyd y gwasanaeth yn ei ddull dihafal ei hun gan Geraint Rees, gyda

Siân Elin wrth yr organ. Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Berwyn, Bethan ac Alun, Carwyn ac Eleri a'r teulu a'r ffrindiau i gyd.

Merched y Tabernacl

Daeth nifer dda o aelodau merched y Tabernacl ynghyd i'r Ganolfan fore Gwener, Chwefror 14eg i fwynhau paned a chlonc, ond prif bwrpas y cyfarfod oedd trefnu rhaglen ar gyfer y tymor. Roedd Judith a Gaynor wedi bod yn brysur yn ôl eu harfer yn chwilio am ddigwyddiadau diddorol ar gyfer yr aelodau. Ein cyfarfod cyntaf fydd ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ar ddydd Gwener 21ain Mawrth. Byddwn yn cyfarfod am goffi a sgwrs yn y cyntedd am 11 o'r gloch y bore.

Ioga Cadair

Mae cyfarfodydd prynhawn trydydd Sul y mis yn dal i ryfeddu'r ffyddloniaid. Brynhawn Sul, Chwefror 16eg mi wnaeth Helen Prosser groesawu ei chyd-weithiwr Laura Caradog i'r Tabernacl i gyflwyno ychydig o Ioga Cadair i'r gynulleidfâ. Gobeithio'n wir y bydd y rhai a oedd yn bresennol yn anadlu'n rhwyddach, yn myfyrio'n ddyfnach ac yn cysgu'n esmwythach. Diolch Laura am gyflwyno prynhawn gwahanol a diddorol i ni.

Sul y Cyfundeb

Cynhelir cyfarfod arbennig yn Y Tabernacl ar Sul, Mawrth 16eg. Sylwer taw'r trydydd Sul o'r mis yw hwn ond cynhelir yr oedfa am 11 o'r gloch y bore. Byddwn yn edrych ymlaen at Y Pasg yng nghwmni artistiaid o fri. Cawn gwmi Delwyn Siôn, Geraint Cynan, Ynyr o Brigyn, ein Huw M ni, a chantorion o gorau CF1 ac Ifor Bach o Gaerdydd. Yn ogystal bydd cyfle i wrando ar ddarlleniadau a gweddiâu. Yn ystod yr Oedfa gwneir casgliad tuag at waith dyngarol yn Gaza. Croeso cynnes i bawb.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Mawrth

Mawrth 2il Gwasanaeth Cymun yng nghwmni Allan James.

Mawrth 9fed Y Parchedig Aled Edwards

Mawrth 16eg Sul y Cyfundeb. Edrych ymlaen ar y Pasg. Caneuon cyfoes gydag amryw o artistiaid. Cyfarfod i ddechrau am 11 o'r gloch y bore.


Mawrth 23ain Y Parchedig Gethin Rhys
Mawrth 30ain Y Parchedig Casi Jones, Bangor.

Cylch Cadwgan Ionawr 2025


Tro Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, oedd rhoi cartref i Gylch Cadwgan ym mis Ionawr 2025.

Y gwstai arbennig y tro yma oedd Eurig Davies, a'I ddewis bwnc oedd "Peter Williams a'I Feibl – arwr cenedlaethol neu heretic?"

Fe aned Peter Williams yn sir Gaerfyrddin yn 1723, a chafodd droedigaeth yn dilyn gwranddo ar bregeth gan George Whitfield yn 1743. Gwrthodwyd ei urddo'n offeiriad oherwydd ei Fethodistaeth, a daeth yn ei dro yn un o arweinwyr y mudiad Methodistaidd yng Nghymru. Prif waith ei fywyd oedd cyhoeddi argraffiadau o'r Beibl gyda sylwadau ar bob pennod.



Cafodd ei ddrwgdybio o goleddu Sabeliaeth oherwydd ei esboniad ar Ioan 1:1, a chafodd ei ddiarddel yn sasiwn Llandeilo Fawr yn 1791.



Treuliodd weddill ei oes yn dadlau'n chwerau a'r Methodistaid. Bu farw yn 1796. [gweler peth mwy o'i hanes yn "Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940".

Yn y llun gwelir Eurig Davies gyda chopi o Feibl Peter Williams oedd ym meddiant y teulu.



O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Alun Jones, enillydd cynta Gwobr Goffa Daniel Owen, am ei nofel *Llwybr Gwyn yr Adar*.

Beth yw eich gwaith?

Mi fûm yn llyfrwerthwr ym Mhwillheli am ddeugain mlynedd a phedwar diwrnod o 1970 hyd 2010. Wedi ymdeol ers hynny.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?

Cyn agor Llên Llŷn mi fûm yn gweithio i ffyrm o beirianwyr sifil ymgynghorol ym Mhorthmadog am bedair blynedd. Y prif waith oedd cynllunio a goruchwyllo codi systemau dŵr a systemau carthffosiaeth, gwaith digon diddorol.

O ble rydych chi'n dod? Ble rydych chi'n byw?

O Drefor yn Arfon, oedd yn bentref diwydiannol, yn bentref glan môr, ac i bob pwrpas yn bentref gwledig hefyd, cyfuniad digon derbynol o'r tri byd. Dw i'n byw ger Sarn Mellteyrn yn Llŷn ers 1976.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?

Do at ei gilydd. Ro'n i'n gogwyddo'n bur gryf at bynciau gwyddonol, yn enwedig yn y chweched dosbarth. Pan o'n i'n dechrau yn y chweched mi benderfynodd yr ysgol am ryw reswm gynnig Mathemateg yn ddau bwnc ar wahân, Mathemateg Bur a Mathemateg Gymhwysol (nid dyna iaith eu teitlau bryd hynny, wrth gwrs). Mi neidiais i am y cynnig, a doedd hynny ddim yn ddewis doeth. Ffiseg oedd y trydydd pwnc.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?

Nid malu awyr fyddai cynnig bod poblogaeth Trefor yn rhan ganolog o'r ateb. Mi fedrwn enwi rhai o athrawon Ysgol Pwllheli hefyd, ond mi fodlona i ar ddau. Elis Gwyn, yr athro Celf yn un, oedd yn rhyddieithwr penigamp ac yn un o'r bobl ehangaf ei ddiwylliant a'i grebwyll a gyfarfûm erioed. Jac, yr athro Gwaith Coed oedd y llall, neu John Griffith Willams, awdur 'Pigau'r Sêr' a'r tri llyfr arall. Roedd yn ffrainc derbyn y gwahoddiad gan ei deulu i draddodi darlith ar ei waith adeg ei ganmlwyddiant yn 2015.

A hefyd yn bendifaddau, brawd Elis Gwyn, sef Wil Sam. Ro'n i'n aelod o Gwmni'r Gegin yng Nghricieth, yn perfformio llawer o ddramâu Wil ac awduron eraill, ac ar ôl yr ymarferiadau mi fyddem yn mynd am ryw beintyn i'r Marine, ac yn bur aml yn ystod y sgwrsio mi fyddai Wil yn ein hannog ninnau hefyd i sgwennu. Mae'n ddigon posib mai'r anogaeth gyson honno, oedd yn cael ei gwrthod bob tro y crybwyllai Wil hi, ddaru drechu yn y diwedd a gwneud i mi fynd ati i ddechrau sgwennu.

Pa lyfrau ydych chi wedi eu hysgrifennu o'r blaen?

Mi gefais sioc anfarwol pan enillodd *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr* yng Nghaerdydd



yn 1978. Mi gyhoeddwyd hi yn 1979. Mae deg arall wedi'u cyhoeddi (ac mae un yn y drôr, ac yno y caiff hi fod). Y deg yw *Pan Ddaw'r Machlud* (1981), *Oed Rhyw Addewid* (1983), *Plentyn y Bwtias* (1989), *Simdde yn y Gwyll* (1992), *Draw Dros y Tonnau Bach* (2001), *Y Llaw Wen* (2004), *Fy Mrawd a Minnau* (2007), *Lliwiau'r Eira* (2012), *Taith yr Aderyn* (2018), *Llwybr Gwyn yr Adar* (2024). Hefyd mae *Cant o Groeseiriau* (2019).

Mae hon yn rhan o drioleg. O ble daeth y syniad?

Ffliwc ydi ei bod yn rhan o drioleg. Doeddwn i ddim wedi meddwl am ddim o'r fath. Daeth syniad syml o rywle – dim ond meddwl sut byddai person sydd newydd ddod yn dywysydd dibaratoad i bobl ar goll yn mynegi iddyn nhw faint o daith oedd o'u blaenau i gyrraedd diogelwch, ac yntau ddim yn deall eu hiaith nhw na nhw ei iaith o. Mae'n bosib fod dylanwad y Kalevala, epig fawr Elias Lönnrot o'r Ffindir, yn y cefndir pell yn rhywle, a dw i wedi benthycu un syniad, a dim ond un, ohoni hi. Gyda llaw, mae'n well gen i y Kalevala na'r Mabinogi.

Pa mor anodd yw cynllunio trioleg? Faint o her yw ei hysgrifennu hi?

Fedra i ddim cynllunio nofel, heb sôn am drioleg. Mae rhai'n dweud fod yn rhaid i nofel fod yn gyfan yn y meddwl cyn dechrau ei sgwennu. Mi fyddai hi wedi canu arna i. Dim ond wrth sgwennu yr ydw i'n cael syniadau (ar wahân i'r syniad cychwynnol, wrth gwrs). Doedd yr ail ddim i fod yn ddilyniant, dim ond dychwelyd i'r un tiroedd hefo stori a chymeriadau newydd. Ond o fewn rhyw saith brawddeg roedd hi wedi troi'n ddilyniant. Fedrwn inna ddim ond deud 'bydd fel'na 'ta'r hulpan' a chanlyn ymlaen.

Mae cynnwys y drioleg yn wahanol iawn i'ch nofel gynta, *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr*. Sut ydych chi wedi datblygu fel nofelydd?

Wn i ddim ydi bod yn filgwaith arafach na chynt wrth feddwl a sgwennu yn arwydd o ddatblygiad. Ond dw i'n meddwl mwy am eiriau, a grym rhyfeddol geiriau syml. Hefyd o bosib yn gwerthfawrogi mwy am gryfder awgrym, a chryfder cynildeb.


Beth sy bwysicach, cymeriad neu blot?

Dw i ddim yn gwahaniaethu. I mi, mae pob un dim ynglŷn â chreu nofel yn un lobsogws sy'n anelu at gyfanwaith.

Ydych chi'n cynllunio plot cyn ysgrifennu?
Dim gobaith.

Beth sy'n gwneud stori dda?

Eto, mi fodlona i ar y lobsogws sy'n anelu at gyfanwaith.



Pa mor bwysig yw iaith rywiog a thafodiaith?

I mi, mae iaith rywiog yn hanfodol. Dw i'n defnyddio tafodiaith yn naturiol. Gyda llaw, os ydi tameidiau o fratiaith yn fwriadol, mae angen yr un faint o feddwl y tu ôl iddyn nhw ag i bopeth arall. Dydi dynwared slafaid, fel sy'n digwydd mor aml, yn dda i ddim.

Pa mor bwysig yw hiwmor?

Dydi o ddim yn angenrheidiol, ond mae'n ddull gwyb o ofalu nad ydi awdur yn ei gymryd ei hun ormod o ddiffri.

Oes gennych chi rwtfn sgrifennu?

Dim gobaith.

Beth yw eich barn am stad y nofel yng Nghymru?

Mi fydda i'n gadael trafodaethau o'r math yna i eraill.

Pwy yw eich hoff awdur? Pam?

Mae deud dim un yn ateb dilys. Mae deud fod gen i bentyrrou ohonyn nhw yr un mor ddilys, ac yn nes ati.

Pa gyngor fydddech chi'n rhoi i awdur newydd?

Dilyn yr drwyn. Chwardda am ben y rhai sy'n gorchymyn beth ddylai gael ei sgwennu a sut y dylai gael ei sgwennu. Ac mae bod yn naturiol, beth bynnag fo'r cynnwys, yn llawer pwysicach na bod yn 'llynyddol'.

Beth sy' ar y gweill?

Ar y funud, henaint.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd

Fi ydi'r cogydd y dyddiau hyn. Mae cinio Sul yn plesio'n ddi-ffael, hefo gwydriad neu ddau o win. Gyda llaw, mae saws llugaeron (nid o botyn) yn llawn mor flusus hefo ham (wedi'i stemio, i gadw purdeb ei flas) ag y mae hefo twrci.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?

Dw i'n olygydd a chysodydd *Y Casglwr*, cylchgrawn Cymdeithas Bob Owen, sy'n cael ei gyhoeddi deirgwaith y flwyddyn. Mae'r gwaith hwnnw'n plesio'n iawn. Dw i'n cerdded hynny a fedra i, darllen, gwrando ar gerddoriaeth glasurol, a bod yng nghwmni wyrion a wyresau sydd, diolch byth, yn gwybod yn iawn sut a phryd i drin Taid gyda'r amarch priodol.

Dolen Gwales: <https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781913996710&tsid=5>

Alun Jones, *Llwybr Gwyn yr Adar*, Gwasg y Bwthyn, £12.95

Colofn Blasus a lachus

Eluned Davies-Scott

Gwneud y pethau bychain!

Wyddoch chi mae'r DU sy'n cynhyrchu'r swm mwyaf o wastraff bwyd yn Ewrop? Mae'r gwastraff hwn yn cynhyrchu tua 25 miliwn tonnall o allyriadau nwyon tŷ-gwydr bob blwyddyn. O'r amcangyfrif o 9.52 miliwn tonnall o fwyd a wastraffwyd, daw 6.7 tonnall (70%) o gartrefi. Mae hyn yn golygu bod pob person, ar gyfartaledd, yn gwastraffu tua 70kg o fwyd y flwyddyn (cyfwerth â 140 o brydau) gyda'r cartref cyffredin yn gwario £470 ar fwyd sy'n mynd i'r bin, 6.4 miliwn tonnall ohono yn fwyadwy. Ac eto mae 8.4 miliwn yn byw mewn tloidi bwyd!

Yn ddiweddar darllenais erthygl am lyfr gan yr hanesydd bwyd, Eleanor Barnett. Yn ei lyfr *'Leftovers: a history of food waste and preservation'* mae hi'n olrhain hanes y ffordd y mae bwydydd dros ben wedi cael eu defnyddio. Yn yr Oesoedd Canol roedd crystiau ar ben peis yn gweithredu fel Tupperware, gan selio cig mewn menyn gloyw. Gwnaeth y Tuduriaid gawl o'r enw 'hotchpot' gan ddefnyddio hen fara a defnyddiodd y Fictoriaid weddillion rhost dydd Sul i wneud ffriterau. Yn oes y Tuduriaid roedd bwyd dros ben yn cael ei roi i'r rhai oedd yn gweithio yn y plasty ac unrhyw un oedd yn aros wrth y gatiâu. Roedd hyd yn oed y gweddillion o'r gwleddoedd yn llys Harri VIII yn cael eu rhoi i'r tloidi. Roedd bwyd yn cael ei ystyried yn anrheg gan Dduw, felly roedd ei wastraffu yn bechod. Heddiw mae'r goblygiadau crefyddol wedi pylu ond mae Barnett yn credu bod yna rai moesol yn parhau. Un o'r gwersi mwyaf y gallwn ei dysgu o'r gorffennol, mae hi'n credu, yw budd cysylltiad agos â chynhyrchu bwyd a'r gadwyn fwyd. Mae'r galw cynyddol am amrywiaeth eang o fwydydd sydd ar gael yn ein siopau yn defnyddio adnoddau fel dŵr ffes a thir mewn gwledydd eraill. Gyda mwy a mwy o bryder am effeithiau newid hinsawdd ar gynhyrchu bwyd rhaid hefyd ystyried effaith gofynion marchnadoedd tramor ar y cynyau sy'n cael eu tyfu ar gyfer eu allforio, yn enwedig y gallu gan wledydd i ddiwallu eu hanghenion eu hunain e.e.Cenya, Brasil a Periw.

Efallai na fydd yn rhaid i ni ddychwelyd at gynildeb ein cyndeidiau wrth baratoi ein prydau bwyd, wedi'r cyfan mae gennym ffyrdd mwy effeithlon o gadw a choginio bwydydd. Fodd bynnag, mae angen i bob un ohonom fod yn fwy ymwybodol o darddiad bwyd a faint o fwyd sy'n cael ei wastraffu.

Symud tuag at werthfawrogi bwyd a deall ei effaith ar ein hamgylchedd a'n cymdeithas yw nod sefydliadau WRAP a FareShare. Mae WRAP (Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau) yn

elusen gofrestrredig sy'n gweithio gyda'r llywodraeth, busnesau, chymunedau a unigolion i'w helpu i leihau gwastraff, datblygu cynnyrch cynaliadwy a defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon. Nod ei menter Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff yw i 'ysbrydoli dinasyddion i gadw bwyd allan o'r bin. Trwy weithio gyda phartneriaid strategol, cynhelir ymgyrchoedd sy'n codi ymwybyddiaeth a herio agweddau, ymddygiad a meddylfryd i ddangos gwerth bwyd: prynu'r hyn sydd ei angen arnom, bwyta'r hyn a brynwn, a storio bwyd yn gywir.' Mae'n werth edrych ar wefan y fenter a lawr lwytho'r pecyn adnoddau **'Gwneud i'ch bwyd fynd ymhellach'** sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ers 2021 mae WRAP wedi cynnal Wythnos Gweithredu ar Wastraff Bwyd. Eleni bydd yr ymgyrch yn rhedeg o 17 - 23 Mawrth gyda'r genhadaeth o *"gael mwy a mwy o bobl ledled y DU i siarad am pam mae prynu ffrwythau a llysiau rhydd yn well". Pam? Oherwydd rydyn ni'n gwybod bod cael y cyfle i brynu ffrwythau a llysiau rhydd yn golygu mai dim ond yr hyn sydd ei angen arnyn nhw y gall pobl ei brynu, ac mae llai o fwyd yn mynd i'r bin. Pe bai pob afal, banana a thatws yn cael eu gwerthu'n rhydd, fe allai 60,000 tonnall o wastraff bwyd gael ei arbed bob blwyddyn."*

Canfu arolwg yn y DU yn 2023 fod 90% o bobl yn ymwybodol o wastraff bwyd fel mater cenedlaethol. Fodd bynnag, dim ond 67% o'r rhai'n oedd yn cytuno eu bod yn gwneud mwy o ymdrech i leihau gwastraff bwyd. Yn sicr mae mwy o ffocws yn y cyfryngau ar y mater hwn gyda rhaglenni teledu, 'dylanwadwyr' cyfryngau cymdeithasol, postiadau ar Instagram, erthyglau mewn cylchgronau ac ar wefannau sydd i gyd yn awgrymu ffyrdd o leihau gwastraff bwyd a sut i gynllunio prydau bwyd yn well.

Tybed pa bethau bach ellwch chi eu gwneud i ddefnyddio unrhyw fwyd sydd dros ben?

Gadewch i ni gymryd tatws fel enghraifft gan fod tua 750,000 tonnall o datws yn cael eu gwastraffu bob blwyddyn gan eu gwneud tatws yn un o'r cyfranwyr mwyaf at wastraff bwyd yn y wlad.

Mae astudiaeth ddiweddar yn argymhell eu storio yn yr oergell, ond peidiwch â'u storio gyda winws gan fod y nwyon y maent yn eu rhyddhau yn achosi i'r llall ddifetha. Mae'n hawdd tynnu'r ysgewyll o daten ac mae'n hanfodol eich bod chi'n torri unrhyw ddarnau gwyrdd i ffwrdd hefyd; mae'r gweddill yn dda i'w ddefnyddio ar gyfer cawliau, chowders a stwnsh tatws. Mae gan Yotam Ottolenghi rysâit da ar gyfer

hash tatws sbeislyd gan ddefnyddio selsig porc sbeislyd fel 'nduja neu chorizo, gruyere ac wyau wedi'u ffrio.

Gallwch rewri tatws, ond rhan-ferwch nhw gyntaf a'i oeri yn gyflym er mwyn cadw eu gwead, lliw a gwerth maethlon. Rhewch nhw mewn un haenen ar hambwrdd, heb eu gorchuddio, cyn eu rhoi mewn bagiau.

Dwi'n rhewi stwnsh tatws hefyd sy'n defnyddiol fel topin ar gyfer pei. Os oes tatws wedi'u berwi dros byddaf yn gwneud salad tatws gyda dresin o crème fraîche, croen y lemwn, shibwns a pherlysiâu meddal fel persli, basil, mintys a dil. Gellir defnyddio hyd yn oed tatws rhost dros ben ar gyfer 'tappas' Sbaeneg trwy ychwanegu paprika mwg a thwb o saws arrabiata, ei bobî am 15 munud a'i weini gyda phersli, darnau o lemwn ac aioli). Blasus gyda penfras wedi'i rostio.



Mae nifer helaeth o ryseitiau da ar gael ar wefannau i'ch ysbrydoli i fod yn greadigol gyda thatws sy'n llechu yn eich bocs llysiau. Efallai y byddwch am ail-ymweld â rhai hen ffefrynnau fel risols, cacennau pysgod, 'bubble and squeak' neu frittata (ffefryn dydd Gwener yn ein tŷ ni i ddefnyddio'r llysiau sydd angen eu defnyddio cyn mynd i siopa).



LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis: Sian Llywelyn Jones

Merched y Wawr, Cangen Tonysguboriau

Ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar oedd yn cael y sylw y mis hwn a braf oedd cael croesawu Hayley Williams o Valleys Steps i arwain ar hynny. Sefydliad elusennol yw'r cwmni sy'n hybu 'lles yn y gymuned'. Cynigir cyrsiau ymwybyddiaeth ofalgar a rheoli straen gan dîm o staff profiadol. Rhoddwyd cyngor ynglŷn â delio gyda straen, hwyliau isel a phryder. Roedd y merched yn teimlo'n llawer mwy hamddenol wrth ymadael!

Mis nesaf bydd noson ddifyr yng nghwmni criw o ddisgyblion Ysgol Llanhari ar y 19eg o Fawrth.

Beth sydd ymlaen ym Mhontyclun

Diolch i Julius Roszkowski, Clerc Cyngor y Dref am y newyddion diweddaraf.

Cynhelir digwyddiad cyntaf y flwyddyn, Ffair Dydd Gŵyl Dewi, ar y 1af o Fawrth. Bydd dros 70 o stondinau yn Heol yr Orsaf Pontyclun rhwng 1 o'r gloch a 5 o'r gloch y prynhawn.

Mae'r cyngor wrthi'n cynllunio dau ddigwyddiad. Cynhelir digwyddiad coffau VE80 ar y 5ed o Fai a'r Pen-blwydd Mawr ar y 14eg o Fehefin. Bydd rhagor o fanylion ar gael maes o law.

Bydd cau cangen lleol o fanc Lloyds yn peri pryder i sawl un ohonoch. Mae'r cyngor wedi siarad â chynrychiolwyr o'r banc sydd wedi sicrhau y byddant yn darparu canolbwynt bancio yma. Nid yw'r cyngor wedi derbyn y manylion llawn eto, ond fel arfer maent yn eu cynnal yn wythnosol mewn lleoliad canolog. Mae'r cyngor wedi cynnig eu cynorthwyo i ddod o hyd i le addas iddynt. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rannu gyda chi wrth iddynt fynd drwy'r broses hon.

Mae Learning Curve RhCT wedi penderfynu newid eu prosiect ac o ganlyniad byddant yn cau eu darpariaeth arlwyyo yng Nghaffi 50 tua diwedd mis Mawrth. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda nifer o bartïon sydd â diddordeb mewn darparu'r arlwyyo ac mae gobaith felly na fydd toriad yn y gwasanaeth i'r defnyddwyr.

Bydd llawer ohonoch wedi gweld yr hysbysiadu ynghylch gosod llinellau melyn dwbl ym Mhontyclun, yn enwedig yn y strydoedd o amgylch yr ysgol gynradd newydd. Mae llawer o drigolion

a busnesau wedi mynegi pryderon am gollu lleoedd parcio a'r problemau y bydd hyn yn ei achosi i ymwelwyr hŷn ac anabl, trigolion na fydd yn gallu parcio'n agos at eu tai a busnesau a fydd yn colli cwsmeriaid. Mae'r cyngor wedi anghytuno'n gryf â'r cynllun a gynnigwyd. Os oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig neu gwestiynau yna cysylltwch â thîm traffig RhCT ar trafficservices@rctbc.gov.uk

Bwyty wedi cau

Ar ôl llawer o waith adeiladu a pharatoi, prin iawn fu bwyty a siop bysgod Brothers ar agor ym Mhontyclun. Pan agorwyd y busnes roedd cownter pysgod da iawn yno, ond fe ddaeth y gwasanaeth i ben yn ddisymwth.

Mae'n anodd dod o hyd i bysgod ffres yn yr ardal, felly mae'n dda iawn bod siop Truffles yn Nhyla Garw wedi



dechrau cynnig ystod dda o bysgod sy'n cael eu cyflenwi gan gwmni Celtic Coast.



HELEDD FYCHAN

Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

- 01443 853214
- Heledd.Fychan@Senedd.Cymru
- 2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ
- Heledd Fychan AS / MS
- @Heledd_Plaid
- @Heledd_Plaid



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

Ysgol Llantrisant



Tenis

Llongyfarchiadau enfawr i RM am ennill twrnamaint tenis yn y grŵp oedran o dan 11leg ac am ddod yn ail o dan 12 oed.

Pêl-droed Ysgolion Rhondda Cynon Taf

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed 5 bob ochr yr ysgol am ennill rownd gyntaf twrnamaint 5 bob ochr Ysgolion Rhondda Cynon Taf. Enillodd y tîm bob un o'r chwe gêm heb ildio un gôl o gwbl – tipyn o gamp, yn enwedig wrth chwarae yn y glaw drwy'r dydd!



Ffarwelio

Fe ddywedon ni hwyl fawr a diolch yn fawr i Mrs Vicky Thompson sydd wedi bod yn gweithio gyda ni fel menyw ginio. Pob hwyl i Mrs Thompson, byddwn ni i gyd, yn enwedig y plant, yn gweld ei heisiau.



Ymweliad Blwyddyn 5 â Senedd Cymru a Techniquest

Ymweliad hynod ddiddorol â Bae Caerdydd i blant Blwyddyn 5 ar 29.01.25. Yn ystod y bore, cafodd y plant gyfle i gael taith o gwmpas Senedd Cymru i ddysgu mwy am yr adeilad, gweld y siambr a dysgu am y mathau o bethau sy'n cael eu trafod a'u penderfynu gan y Senedd. Yna, cerddodd y plant draw i 'Techniquest' i gael gweithdy cyffrous am DNA yn y labordy ac yna cyfle i brofi rhai o'r gweithgareddau gwyddoniaeth a thechnoleg hwyliog o gwmpas yr adeilad.



Cwis Dim Clem

Da iawn i'r tîm o blant Blwyddyn 6 am gystadlu yn y 'Cwis Dim Clem!' a drefnwyd gan Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Doedd dim gwaith paratoi ymlaen llaw, dim ond gwybodaeth gyffredinol dda oedd ei hangen ac ychydig o synwyr cyffredin! Ar ôl eu llwyddiant yn y rownd gyntaf ar 29.01.25, ymlaen â'r tîm i'r rownd nesaf ar 17.02.25. Pob lwc!



CANOLFAN YR OLWG CENTRE
Heol Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF88 1RQ

gan Caryl Lewis

Sioe newydd i blant 3 - 7 oed
Gwaith Byrfti a Bwbw yw sgleino'r lleuad. Pan mae Pwnic yn dweud wrth y ddau am beidio gwneud hynny? O diar,bydd y byd i gyd yn dywyll!
Yna, mae rhywbeth hudolus yn digwydd.....

Dydd Gwener, Mehefin 20fed
10yb ac 1yp

Tocyn
£8.50

Cysylltwch y ganolfan am fwy o wybodaeth!
www.rct-theatres.co.uk

01443
570075

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

Mis Mawrth 2025:

1 (bore Sadwrn) – Oedfa Dydd Gwyl Ddewi (am 10:00 a.m.)

2 – Oedfa Dewi Sant yr Ysgol Sul

9 – Oedfa Gymun dan ofal Eirian Dafydd

16 – Sul y Cyfundeb (yn y Tabernacl, Efail Isaf am 11:00 a.m.)

23 – Oedfa dan ofal Aelodau gorllewin Caerdydd

30 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Wyn Samuel

Mis Ebrill 2025:

6 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion

13 – Oedfa dan ofal y Cwrdd Merched [Dim YS]

18 – Gwasanaeth Bore Gwener y Groglith (am 10:00 a.m.)

20 – Sul y Pasg – I'w gadarnhau [Dim YS]

27 – Cyflwyniad Cerddorol "Gorffenwyd" gan Gôr y Capel ac eraill (am 6.00 p.m.)

---oooOOOooo---

Un o'r pethau sydd yn glanio ar fy nghyfrifiadur yn achlysurol ydi gwybodaeth oddiwrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol [ONS - "Office for National Statistics"], a hynny yn barhad o'r cyfnod pan oeddwn mewn gwaith.

Prysuraf i ddweud mai diddordeb, yn hytrach na gorfodaeth ydi'r rheswm am barhad y berthynas rhyngom erbyn hyn!

Yn yr un diweddaraf, yn deillio yn uniongyrchol o gasglu gwybodaeth ar gyfer Cyfrifiad 2021, mae manylion (ystadegol) am hyd bywyd poblogaeth 2023 yng ngwledydd Prydain h.y. pa mor hen y gallwn ddisgwyl byw!

Mae cip sydyn ar y data sydd yn yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth ddifyr iawn, e.e.

- Gall bechgyn a aned yn 2023 ddisgwyl oes o 86.7 mlynedd, ond bydd merched yn debygol o fyw nes y byddant yn 90 mlwydd oed.
- Erbyn y flwyddyn 2047, byddai'r cyfartaledd oedran yn debygol o fod yn 89.3 i fechgyn a 92.2 i ferched!
- Yn y flwyddyn 2072, bydd y gwahaniaeth yma rhwng merched a ddynion wedi gostwng i 2.5 mlynedd.
- I'r rhai ohonoch oedd yn 65 yn 2023, mae gan y gwrywod 19.8 o

flynyddoedd yn weddill, a'r menywod 22.5 mlynedd.

- Amcangyfrifir y bydd 17.3% o fechgyn, a 24.7% o ferched, a gaiff eu geni yn 2047, yn byw (o leiaf) hyd at 100 oed.

Mae yna wahaniaeth hefyd yn y disgwyliadau am oes pobl yn y gwahanol wledydd ym Mhrydain e.e. i ferched / bechgyn a aned yn 2023:-

- 90.3 / 86.9 mlynedd yn Lloegr
- 89.9 / 86.6 mlynedd yng Ngogledd Iwerddon
- 89.5 / 86.3 mlynedd yng Nghymru
- 88.5 / 84.9 mlynedd yn yr Alban

Mae'r Swyddfa Ystadegau yn prysuro i ddweud bod y gwaith sydd yn cael ei wneud ganddynt, yng ngyd-destun amcangyfrifon poblogaeth gwledydd Prydain, yn hanfodol er mwyn I'r llywodraethau allu cynllunio'n effeithiol ar faterion megis iechyd, addysg, pensiynau a'r economi.

Wn i ddim a oedd cyfundrefn debyg yn bodoli pan oedd Duw wrthi'n creu y byd, ond mae cip trwy Lyfr Genesis yn awgrymu'n gryf nad oedd galw am y fath wybodaeth!

Bu Adda, yn ol yr hanes, fyw nes oedd yn 930 mlwydd oed (Genesis 5:4).

Pan oedd Adda yn 130 oed cafodd Seth, ei fab ei eni.

Bu Seth fyw nes oedd yn 912 mlwydd oed, a cafodd Enosh, ei fab yntau, ei eni pan oedd Seth yn 105 oed.

Bu Enosh fyw nes oedd yn 905 mlwydd oed!

Ac ymlaen yr aiff stori yr ach, am Cenani (910 oed), Mahalal-el (895 oed), Jered (962 oed), nes cyrraedd Enoch (365 oed).

Enoch oedd tad yr enwog Methwsela, ac fel y gwyddom ef ydi'r cymeriad hynaf un a grybwyllir yn y Beibl. Bu ef farw yn 969 oed, ac fe aned Lamech, ei fab yntau pan oedd yn 187 mlwydd oed.

[Yn ei gyfrol "Y Gair yn ei Bryd – Casgliad o Ymadroddion o'r Beibl" mae'r Parchedig Huw Jones yn cynnwys y dywediad "Hen fel Methwsela", gan nodi "Hyd y gwn 'does neb wedi torri'r record yna!", cyn ymhelaethu "Fel arfer, i ni, hen fel pechod yw pethau, ond hen fel Methwsela yw pobl".]

Gweindog Capel Bethlehem, Pentyrch (Gwaelod-y-garth) rhwng 1842 ac 1872 oedd y Parchedig John Jones. 'Roedd ef yn fab i'r Parchedig Methuselah Jones, Bethesda, Merthyr Tydfil, ac yn 1836, fe aned mab i John a'i alw'n yntau yn

Methuselah. Daeth ef yn weinidog yn Tynnewydd yn y Rhondda, wedi iddo dreulio ei ieuencid ym Methlehem, dan weinidogaeth ei dad.

Ac i gwblhau'r rhan yma o'r stori, Lamech (marw yn 777 mlwydd oed) oedd tad Noa, a bu yntau Noa fyw nes oedd yn 950 oed, a hynny gryn 350 mlynedd wedi'r dilyw (Genesis 9:29).

['Roedd Lamech yn 182 oed pan aned Noa, ac yn ôl llinell amser y Beibl, 'roedd Adda yn cyd-oesi a Lamech am 56 mlynedd!]

Ond digon oedd digon, ac yn ôl Genesis 6:3, "Yna dyma'r Arglwydd yn dweud, "Alla i ddim gadael i bobl fyw am byth. Mae nhw'n greaduriaid sy 'n mynd i farw, ac o hyn ymlaen fyddan nhw ddim yn byw fwy na 120 mlynedd," [Beibl.net]

Er hwyrach iddo gael mymryn o newid meddwl ynglyn ag Abraham, oherwydd, yn ôl Genesis 25:7, bu ef farw yn 175 mlwydd oed, ac 'roedd yn 100 oed pan aned ei fab Isaac!

"Wrth i boblogaeth y byd dyfu ac i ferched gael eu geni, dyma'r bodau nefol yn gweld fod merched dynol yn hardd. A dyma nhw'n cymryd y rhai roedden nhw'n eu ffansio i fod yn wragedd iddyn nhw'u hunain." [Beibl.net]

Tydi'r Beibl ddim yn son rhyw lawer am ferched mewn oed, yn rhannol oherwydd bryd hynny, mae'n debyg, nid oedd disgwyl i ferched fyw yn hir.

Yr un a gynhwysir (yn yr Hen Destament) fel yr hynaf ydi Sara, gwraig Abraham, a fu byw tan cyrraedd ei 127 oed.

Yna, credir fod Mair Magdalen wedi cyrraedd ei 100 oed cyn marw.

Wedyn Naomi (90 oed), Elisabeth, mam Ioan Fedyddiwr (88 oed), Anna y Broffwydes (84 oed), a Mair, mam yr Iesu (rhwng 48 a-51 mlwydd oed).

Weddi'r crwydro Beiblaidd uchod, dyma ddychwelyd at ein heddiw ni.

Mae gwefan yr ONS yn eich gwahodd i gael amcan o'ch hir-oesedd eich hunan os dymunwch, a'ch siawns o oroesi hyd nes y byddwch yn 100 oed!

A do fe fentrais adael i'r peiriant fy ngoleuo am fy nhwynged!

Ar canlyniad?

Ymddiheuriadau, ond bydd yn rhaid i chwi ddiodeff y golofn yn Tafod Elai hyd o leiaf 2038 (87 mlwydd oed).

Ond, yn ol y sôn mae gennyf siawns o 1 mewn 4 i fyw hyd y byddaf yn 92 mlwydd oed, 1 mewn 10 hyd at 96, ac yn garedig iawn mae'r cyfrifiadur yn nodi y gall bod siawns o 2.4% o gyrraedd y 100 oed!

Hir oes i Tafod Elai felly!!

Ysgol Dolau

Bod yn Ofalus Ar-lein

Bu'r ysgol yn dysgu am sut i fod yn ofalus ac yn ddiogel ar lein ar gyfer Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Ddiogel. Cawson ni brynawn linc lle roedd yr adran Iau wedi cyd-weithio gyda'r babanod.



Dydd Miwsig Cymru

Cawsom lot o hwyl a sbri yn canu ac yn dawnsio.



Pêl-droed

Bu'r tîm yn chwarae yn Nhwrnament pêl-droed yn Nhonyrefail. Chwaraeodd y plant yn wych a phob hwyl i'r tîm yn y rownd nesaf!



Twrnament pêl-rwyd yr Urdd.

Chwaraeodd y plant yn wych a daethant yn ail allan o dau-ddeg chwech tîm!



Eisteddfod Rhanbarth Ddawns ac Offerynnol Morgannwg Ganol.

Perfformiadau anhygoel gan bawb. Pob lwc i Annabel ar y fflwiwt, Ellery ar y piano ac i Ellery, Gwenno a Snigdha yn yr ensemble yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr ym mis Mai!



Diwrnod Hoci

Roedd Senedd yr ysgol yn falch iawn i gyflwyno diwrnod arbennig o hoci ar gyfer elusen RR81 ar Chwefror 7ed. Codwyd swm anhygoel ar gyfer yr elusen arbennig yma. Da iawn tîm.



Straeon Hynod yn ein Hanes

Llyfr HanesByw 3
Melfyn Hopkins

Ceir hanesion yma am rai o ffigurau mwyaf adnabyddus ein hanes, a digwyddiadau rhyfeddol nad oes esboniad iddynt hyd yma.

Faint wyddon ni am rai o straeon mwyaf hynod hanes Cymru? Mae casgliad arbennig ohonyn nhw yn y gyfrol hon. Wrth ymchwilio i ddogfennau hanesyddol, sylwodd yr awdur fod ffeithiau llai amlwg a rhai digwyddiadau hanesyddol yn cael eu cyfeirio atynt mewn troednodiau, heb gael eu harchwilio'n fanwl. Ar gyfer y gyfrol hon, aeth ati i roi cig ar yr asgwrn i'r nodiadau ymylol, a chyfuno hynny â'i ddi-ddordeb mewn dirgelion a ffenomenâu rhyfedd o'r gorffennol, er mwyn adrodd y straeon llai cyfarwydd o hanes Cymru yn llawn. Hynny ydi – y straeon llai amlwg ond rhyfeddol am ein gorffennol.

Ysgol Dolau (Parhad)

Dysgu Ymlacio

Bu plant y Feithrin yn brysur yn mwynhau diwrnod Sba, yn ymlacio ar gyfer wythnos iechyd meddwl plant.



Creda'r awdur ei bod bwysig i ni gofio am ein hanes, wrth fyw o ddydd i ddydd, oherwydd fod gan bob person hanesion unigryw am eu milltir sgwâr a'u teuluoedd eu hunain. Gall pawb gyfrannu i'n hanes, mae fel jig-so, pawb yn rhoi darn i wneud y llun yn gliriach. Er mawr rwystredigaeth i haneswyr, ni fydd y llun byth yn gyflawn, ond mae hyn hefyd yn rhan o'r diddordeb a'r hwyl.

Mae'r gyfrol yn cynnwys pymtheg o straeon bywiog, sy'n gymysgedd o ddigwyddiadau gwaedlyd, trist, anesboniadwy, rhyfedd, doniol a diddorol. Sonir am ddigwyddiadau o wahanol ardaloedd yng Nghymru ac mae rhywbeth yma fydd o ddi-ddordeb i bawb. Gallwn ddysgu o fethiannau a llwyddiannau'r gorffennol, gan obeithio y bydd hynny'n ein helpu i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer y dyfodol. Y gobaith yw y bydd y gyfrol hon yn eich diddanu, yn dysgu rhywbeth newydd i chi am ein gorffennol, ac y byddwch o'i darllen yn gallu dychmygu digwyddiadau heddiw fel straeon a all fod yn cael eu cofnodi'n y dyfodol.

Crëwyd y darluniau sy'n tanio'r dychymyg ar gyfer pob stori gan Mei Mac.

Straeon Hynod yn ein Hanes. Gwasg Carreg Gwalch, £8.99 ar werth mewn siopau llyfrau neu drwy wefan y wasg, www.carreg.gwalch.cymru a gwefan www.gwales.com



Diwedd y Gân gan Rebecca Roberts (nofel i oedran 16+)

Yn dilyn llwyddiant *Curriad Gwag*, nofel yn dilyn hynt a helynt aelodau band roc o'r enw *Konquest*, mae'r awdures o Brestatyn, Rebecca Roberts, yn cyhoeddi dilyniant i gau pen y mwdwl ar anturiaethau'r band.

Prif gymeriad y nofel yw Sophie, sy'n hanu o Sir y Fflint: rheolwr taith y band ac, ers diwedd *Curriad Gwag*, eu prif leisydd. Ers diwedd y nofel gyntaf mae'r band wedi bod yn gweithio'n galed yn perfformio a datblygu eu cerddoriaeth, ond tydi'r llwyddiant rodden nhw'n gobeithio amdano ddim wedi digwydd. Yn dilyn sylw negyddol gan gynrychiolydd o label recordio, mae Sophie yn penderfynu dilyn ei llwybr ei hun, a derbyn cynnig cyffrous sy'n mynd â hi ar antur hollol annisgwyl.

Doedd y penderfyniad i sgwennu dilyniant ddim yn un anodd, yn ôl Rebecca; 'Dechreuais feddwl am stori Sophie a chriw *Konquest* cyn mynd ar gwrs sriptio yn Llundain yn 2008, felly maen nhw wedi bod yn fy mhen i ers dros bymtheng mlynedd. Ar ôl cwblhau *Curriad Gwag* ro'n i'n teimlo bod angen i mi wybod be oedd y band am ei wneud nesaf, felly ro'n i'n falch iawn o gael comisiwn gan Wasg Carreg Gwalch i ysgrifennu'r dilyniant. Doedd gen i ddim clem ble roedd y cymeriadau am fynd nesaf – roedd parhau â'r daith yn antur newydd sbon, ond roedd ambell edefyn yn weddill o'r llyfr cyntaf...'

Gwasg Carreg Gwalch, £8.99

ARDDANGOSFA MIS HANES MENYWOD

GWLAD NEWYDD Y MERCHED CWILT ER CLOD

I FERCHED RHONDDA CYNON TAF

Dathliad o hanes a chyflawniadau menywod ac addysg Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

6 MAWRTH - 31 MAWRTH 2025

AMGUEDDFA CWM CYNON

ABERDÂR, CF44 8DL



Ysgol Creigiau

Diolch Persimmon!

Croesawon ni Chris Thorne, Pennaeth Materion Allanol Tai Persimmon, i'r ysgol yn ddiweddar. Gwnaeth yr ysgol gais am gefnogaeth o'u Cynllun Pencampwyr Cymunedol a rhoddwyd sic o £3000 i'r ysgol i gefnogi datblygiad ein hardaloedd dysgu awyr agored ar draws yr ysgol. Diolch o galon, Persimmon!



Cawl Cennin

Yn ystod y tymor bu Disgyblion CA2 yn brysur gyda Mrs John yn paratoi a choginio cawl cennin gan ddefnyddio cennin a dyfwyd yng ngardd yr ysgol. Roedd y cawl yn blasu'n fendigedig. Roedd y disgyblion i gyd wrth eu boddau yn dangos eu sgiliau coginio!



Dosbarth 2 a Class 2 yn mwynhau eu cawl cennin yn yr ardd!

Diolch Creigiau23

Mae Creigiau23 yn garedig iawn wedi rhoi'r holl elw a wnaethant yn ystod eu gweithgareddau Nadolig i'r ysgol. Daeth Tony Crane, Cadeirydd Creigiau23, i'r ysgol i gyflwyno sic o £553.35 i'r ysgol. Diolch yn fawr Creigiau23 - rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr.



Helpu Gwella Ein Cymuned Leol

Fel rhan o'u hymchwiliad ar gynaliadwyedd adnoddau a newid hinsawdd, cynhaliodd disgyblion Class 6 a Dosbarth 6 arolwg i gasglu data ar sut y teithiodd y cwsmeriaid sy'n ymweld â Tesco yno. Defnyddion nhw'r data a gasglwyd i gwblhau gwaith Rhifedd. Fe gymeron nhw ran hefyd mewn gweithred barchus i berswadio'r trigolion lleol i helpu gwella llygredd yn yr ardal leol. Diolch i bawb a atebodd gwestiynau'r disgyblion.



Dosbarth 6 yn cynnal gweithred barchus tu fas i Tesco!

Sesiynau Addysg Ariannol

Bu Katie, Hyfforddwr Rhaglen MyBnk Cymru, yn cyflwyno sesiynau Addysg Ariannol i'n disgyblion yn Mlwyddyn 5 a 6. Edrychon nhw ar y gwahaniaeth rhwng cyfrifon cyfredol a chynilo, cyllidebu, sut i ddatblygu arferion gwario da a'r hyn y gallent ei wneud i arbed arian gartref. Fe fwyneuoedd Katie dreulio amser gyda'n disgyblion brwdfrydig.

Gweithdai Codio Lego

Cyflwynodd Luke a Tiarnan, Addewid Caerdydd, weithdai Codio Lego i'n disgyblion Blwyddyn 3, 4 a 5. Dysgon nhw sut i adeiladu modelau a chodio modur a ddefnyddion nhw i symud eu modelau. Roedd pawb wrth eu boddau.

Canolfan Ddarganfod Cilfynydd

Ymwelodd disgyblion Dosbarth 5 a Class 5 â'r Gwaith Trin Gwastraff yng Nghanolfan Ddarganfod Cilfynydd. Darganfyddon nhw sut mae dŵr gwastraff yn cael ei lanhau, ei drin a'i ddychwelyd yn ddiogel i'r amgylchedd. Bydd y profiad yma'n cefnogi'r disgyblion i fod yn ddinasyddion byd-eang, gyda dealltwriaeth o gynaliadwyedd a'i effaith ar y gymuned leol. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.



Trnamaint Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau i'r ddau dîm Pêl-rwyd am chwarae mor arbennig yn Nhwrnamaint yr Urdd yn 'House of Sport'. Roedd Mrs Hussey a Mrs Sims yn falch iawn o'u hymdrechion a'u llwyddiant. Cyrhaeddodd

y ddau dîm rownd y chwarter olaf, lle bu'n rhaid iddynt chwarae yn erbyn ei gilydd! Cyrhaeddodd y tîm buddugol y rownd derfynol ond yn anffodus fe gollon nhw'r gêm. Er hyn roedd y disgyblion wrth eu boddau'n ennill eu medalau arian. Rydym ni'n hynod falch ohonoch chi i gyd - da iawn ferched!



Gwasanaeth a Gweithy Dŵr Cymru

Cyflwynodd Mia, Swyddog Addysg Dŵr Cymru, wasanaeth 'Ffynhonnell i'r Môr' i'n disgyblion CA2. Mwyneuoedd Dosbarth 3 a Class 3 hefyd weithdai yn seiliedig ar y Cylch Dŵr. Diolch Mia!

Parc Margam

Ymwelodd disgyblion Dosbarth 2 a Class 2 â Pharc Margam. Mwyneuoedd nhw weithgareddau amrywiol yn y pyllau dŵr a helpa trychfilod bach. Roedd eu hymddygiad a'u brwdfrydedd yn arbennig trwy'r dydd. Ardderchog Blwyddyn 2!



Academi Traeth Cymru

Roedd disgyblion Dosbarth 1 a Class 1 yn gyffrous iawn i fynd ar eu taith i 'Academi Traeth Cymru' ym Mhorthcawl yn ddiweddar. Roedd pawb wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithdy 'Archwilio Pyllau ar Lan y Môr'. Roedd gan bob un ohonynt wên ar eu hwynebau blinedig pan ddychwelon nhw i'r ysgol!



'Drama Queens'

Y tymor yma mae Ros, o gwmi Theatr Gerdd 'Drama Queens', wedi bod yn cynnal sesiynau dawns i ddisgyblion Blwyddyn 3, 4, 5 a 6.

Ysgol Evan James

Cystadleuaeth Pêl-rwyd Yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-rwyd yr ysgol am ymdrech arbennig - ennill 3 a cholli 1 gêm o 1 gôl yn unig, gwych!!



Ysgol Creigiau (Parhad)

Yn dilyn cais llwyddiannus ar gyfer grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru, roedd y sesiynau i gyd wedi cael eu hariannu. Roedd pawb wedi mwynhau'r sesiynau hwyliog yn fawr iawn a mwynheun nhw berfformio i'w gilydd ar diwedd y tymor.

Ymweliad â Mosg

Aeth disgyblion Dosbarth 4 a Class 4 i Fosg ym Mae Caerdydd. Mwynheun nhw wrando ar yr Imam yn sôn am draddodiadau Mwslimaidd.



Casgliad Tun ar y Wal.

Ddydd Gwener olaf pob mis byddwn yn cefnogi ymgyrch y Clwb Rotari, 'Tun ar y Wal'. Ym mis Ionawr, llwyddon ni gyfrannu 40 cilogram o ffwydydd tun amrywiol i'r banc bwyd lleol. Diolch i aelodau Pwyllgor Lles Blwyddyn 6 a helpodd i gasglu'r tuniau oddi ar y wal!



Eisteddfod Ysgol

Cawsom ddiwrnod i gofio wrth ddathlu doniau'r disgyblion yn Eisteddfod yr Ysgol. Da iawn i bob un cymerodd rhan.



Eisteddfod Cylch

Llongyfarchiadau mawr i'r grŵp dawns daeth yn 3ydd yn yr Eisteddfod Gylch. Hoffwn ddiolch i'r grŵp a Miss Ward a Miss Gibbon am eu gwaith caled.



Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd

Daeth ymwelydd arbennig i'r ysgol i helpu ni dathlu diwrnod coch, gwyn a gwyrdd. Diolch Mr Urdd am helpu ni dathlu. Roedd y disgo tawel yn y prynhawn yn fendigedig!



Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yr Urdd



Trafod y Senedd gyda AS Heledd Fychan

Clwb y Bont

"Gwisg genhinen yn dy gap, a gwisg hi yn dy galon" yw'r geiriau cyfarwydd sydd wedi ei drosglwyddo i ni fel Cymry o genhedlaeth i genhedlaeth. A dyna yw'r genadwri yng Nghlwb y Bont lle mae ein Cymreictod wrth galon ein hymnwneud â'n amrywiol gymunedau; ond hefyd sicrhau bod gweledigaeth y rhai a sefydlodd y Clwb yn parhau'n fyw ac yn iach ac yn denu'r genhedlaeth nesaf i gymdeithasu a mwynhau'r arlwy amrywiol.

A hithau'n gyfnod dathlu Gŵyl ein Nawddsant, gyda nifer o ddigwyddiadau penodol wedi eu trefnu i gofnodi hynny yn cynnwys cwis, parti gwyllo Cân i Gymru, gweithdai crefft a gig gyda Rhys Meirion a Melda Lois, hawdd meddwl bod pob dim yn llwyddiannus. Ond mae angen mwy na gwisgo'r genhinen yn ein capiau gan mai peth arwynebol yw hynny. Felly heb wisgo'r genhinen yn ein calonau a mynychu'r digwyddiadau, ac annog eraill i ddod yna mae'r gofid o drefnu nosweithiau stafelloedd hanner gwag yn mynd i fod yn bryder parhaol.

Wrth gwrs mae arwyddion gobeithiol, er enghraifft pan ddaeth nifer o bartneriaid a chymdeithasau at ei gilydd i gyfrannu at Ffair y Gymraeg gyntaf yn ddiweddar. Dyma gyfle i siaradwyr newydd flasu'r cyfleodd sydd ar gael i fwynhau a defnyddio'r Gymraeg o fewn y dalgylch. Rydym hefyd yn hynod falch bod dau o'n cefnogwyr cyson, Wilf a Liz yn lansio cynllun "Clwb Cymraeg" ar nos Iau cynta'r mis ym mis Mawrth gan gynnig cyfle i siarad Cymraeg yn anffurfiol y tu allan i strwythur dosbarth ffurfiol.

Mi fyddwn yn parhau i gynnig arlwy o gigs Cymraeg a di-Gymraeg yn fisol o hyn i'r haf yn ogystal ag edrych ar gyfleodd i gynnal gweithdai a digwyddiadau cymdeithasol eraill.

Ond nid ar chwarae bach mae gwneud hyn i gyd. Mae dwy ffordd i helpu gyda'r ffyniant - prynu tocynnau i ddigwyddiadau, a dod yn aelod o'r Clwb. Fel yng ngeiriau Dewi Sant drwy wneud "y pethau bychain" allwn ni gyd chwarae ein rhan gan sicrhau dyfodol disglair i Glwb y Bont.

Aled Wyn Phillips
Swyddog Datblygu


Ymweliad AS Heledd Fychan

Diolch i AS Heledd Fychan am ddod i drafod ei swydd gyda Senedd yr Ysgol. Roedd cael cyfle i drafod gydag AS yn fraint. Mae'r Senedd yn edrych ymlaen at gwrdd ag AS Heledd Fychan yn y Senedd tymor nesaf.

Ysgol Llanhari

Cwis Dim Clem

Diolch i ddisgyblion blwyddyn 6 a fu'n cystadlu yng nghwis Dim Clem Menter Iaith yn ddiweddar. Llwyddon nhw ateb pob math o gwestiynau! Roedd hi'n gystadleuaeth agos tu hwnt!! Llongyfarchiadau mawr i'r tîm.



Eisteddfod

Mor hyfryd oedd hi i gael pawb nôl at ein gilydd yn neuaddau'r ysgol ar gyfer diwrnodau Eisteddfod. Roedd y bwrlwm yn amlwg ymysg y disgyblion a nifer fawr yn awyddus iawn i berfformio. Llongyfarchiadau gwresog i Cei Winney am ennill cadair CA4 a CA5 a Dora White am ennill cadair CA3. Cyflwynwyd cadeiriau hardd wedi eu creu gan Mr Daniel Harries o'r Adran Dechnoleg i'r ddau ohonynt i ddathlu eu camp.



Diolch yn fawr i'r disgyblion am gystadlu, eu hymddygiad ardderchog a'r cystadlu brwd. Diolch hefyd i'r athrawon am hyfforddi ac i'r beirniaid am gyfrannu at ddiwrnod arbennig. Hyfryd unwaith eto oedd croesawu cyn aelodau o staff i feirniadu ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Diolch i Mrs Rhian Phillips, Mr Colin Pari, Ms Rhian Rapsey a Mrs Carys Lewis. Bu'n ddiwrnod arbennig iawn!

Trosglwyddo

Braf oedd croesawu disgyblion blwyddyn 5 ysgolion y clwstwr i'r ysgol am fore o hwyl. Cawsant gyfle i arbrofi yn y labordai Gwyddoniaeth, cwblhau gweithgareddau cyd-weithio; cyfle gwych i ddod i adnabod ei gilydd.



Gwisgo Coch i Felindre

Braf oedd gweld cymaint o ddisgyblion wedi gwisgo mewn coch i godi arian i Felindre. Llwyddwyd i godi swm sylweddol ar gyfer yr achos da.



Taith Blwyddyn 8

Bu disgyblion blwyddyn 8 ar daith gwych yn ddiweddar i weithdy Tim Williams Fformiwla 1. Cawsant gyfle i weld y ceir anghygoel ac i gwblhau weithgareddau STEM. Am ddiwrnod i'w gofio!



Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau



Eisteddfod yr Ysgol

Llongyfarchiadau i'r bardd buddugol 'Cariad Cŵl Glas' am ennill y gadair eleni drwy gyfansoddi cerdd yn seiliedig ar y thema 'Fy Mreuddwyd'.



Llongyfarchiadau mawr hefyd i bawb enillodd dystysgrif am eu gwaith celf, llawysgrifen, ac am ysgrifennu chwedl. Da iawn i bawb a gymerodd ran yn yr holl cystadleuaethau eleni. Roedd yr holl waith o safon uchel iawn.

Da iawn i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Ysgol a phob lwc i'r rhai sy'n mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Gylch.



Cafodd pawb amser arbennig yn yr Eisteddfod Hwyl eleni! Cawsom brynhawn llawn hwyl a sbri gyda phawb yn mwynhau perfformio ar lwyfan yr ysgol.

Cafwyd llefaru, canu ac adloniant penigamp gan bob llys gyda Gelynnog yn fuddugol - llongyfarchiadau mawr iddyn nhw.



Cyn-Feithrin

Mae gennym lefydd Cyn-Feithrin ar gael yn dechrau ar ôl y Pasg (os yn 3 oed erbyn 31.3.25). Mae ychydig o lefydd ym Medi 2025 ar ôl hefyd. Cysylltwch gyda'r ysgol cyn gynted os oes diddordeb.

Head@yggcastellau.rctcbc.cymru



Wythnos E-Ddiogelwch

Diolch yn fawr i'r Cyngor Digidol am wasanaeth meddylgar i ddechrau ein hwythnos E-Ddiogelwch. Bu nhw'n brysur yn dewis masgot e-ddiogelwch ar gyfer ein hysgol er mwyn atgoffa ein disgyblion sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr!



Estynnwn diolch arbennig i Andrew Minton o 'Hangry Animals' am droi masgot buddugol Blwyddyn 6 yn ddelwedd digidol 3D!



Chwaraeon

Er y gwynt a'r glaw, gwnaeth bawb ymdrech arbennig yn nhrnament RCTSFA a thwrnament pêl-rwyd yr Urdd. Da iawn chi blant!



Ysgol Garth Olwg

Taith i Rydychen

Braf oedd cael ymweld â'r Coleg Newydd yn Rhydychen mis yma. Yn gyntaf, cafon ni groeso cynnes cyn dysgu am hanes diddorol y Coleg Newydd, yn mynd nôl i 1379! Dysgon ni am fywyd prifysgol yn uniongyrchol gan dri myfyriwr y Coleg Newydd, gyda'u profiadau gwahanol yn cyffroi ni ar gyfer y brifysgol a'r cyfleoedd yn y dyfodol. Braint oedd cael bod yn yr adeilad crand, ble bwyton ni ymhlith myfyrwyr y Coleg, gan flasu sut mae cymdeithasu a dod i adnabod pobl yn Rhydychen. Pysgod a sglodion, cyw iâr, lasagne, cacen gaws; dyma oedd rhai o'r amryw o fwydydd blasus oedd ar gael. Yn bendant, dyma beth oedd wedi ein perswadio fwyaf! Wedyn, arweiniodd y myfyrwyr ni o gwmpas y Coleg, gan roi cyfle i ni weld yr adeiladau amrywiol, a gerddi gwych, yn ogystal â chwrrd â chath hyfryd y coleg! Wedyn, symudon ni ymlaen at ddarn olaf y diwrnod sef darlith am wleidyddiaeth gyda Meera Sebaratnam. Diddorol tu hwnt oedd cael dehongli tueddiadau gwleidyddol y byd modern a chlywed safbwyntiau ein cyfoedion. I gloi, agorodd y daith ein llygaid at y posibilrwydd o fynd i Rydychen gan wneud hyn yn llwybr realistig wrth i ni styried ein dyfodol.

Niwrowyddoniaeth

Mae disgyblion B1.9 yn cymryd rhan mewn Rhaglen Rhagoriaeth sy'n ffocysu ar y thema 'Niwrowyddoniaeth' eleni. Prosiect ar y cyd yw hwn gydag Ysgolion Rhydywaun, Llanhari, Cwm Rhondda a Llangynwyd. Darperir cyfres o weithdai gan arbenigwyr maes ar thema sydd yn newid yn flynyddol. Bydd y rhaglen yn cyflwyno disgyblion i waith academiaidd gan ysgogi iddynt ymchwilio yn feirniadol er mwyn cwblhau prosiect terfynol ar lefel addysg bellach.



Ysgol Bartner yn Xiamen

Yn ddiweddar yn ein gwersi Mandarin rydym wedi bod yn gweithio gyda'n hysgol bartner yn Xiamen: Xiang'an Experimental School. Hyd yn hyn, rydym wedi cael un cyfarfod gyda'r ysgol. Fe wnaethom gyflwyno ein hysgol a gofyn llawer o gwestiynau wrthynt a gwnaethant yr un peth. Mae eu hysgol yn ddiddorol iawn, ac ni allwn aros i ddysgu mwy amdani. Yn ein cyfarfod gyda nhw ym mis Mawrth byddwn yn cymharu eu dathliadau gyda'n rhai ni. Ni allwn aros am y cyfle hwn ac rydym yn gyffrous iawn i gwrrd â'r ysgol eto. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyfle anhygoel hwn y mae'r ysgol wedi'i roi i ni ac yn methu aros i ddysgu mwy o Fandarin!



Mis Hanes LHDT

I godi ymwybyddiaeth o Fis Hanes LHDT gwnaeth y criw Radio wneud podlediad a chynnal y gwasanaethau. Mae'n bwysig iawn ein bod yn dathlu'r mis a gobeithio bod y disgyblion wedi dysgu pethau Newydd.

Radio Garth

Mae criw Radio Garth wedi bod yn brysur iawn yn creu podlediadau i ddathlu'r digwyddiadau diweddar - Santes Dwynwen, Mis Hanes LHDT a Dydd Miwsig Cymru. Mae llawer o fideos i'w gweld ar ein cyfrif Instagram a'r podlediadau ar youtube.

Dydd Miwsig Cymru

Mae Dydd Miwsig Cymru wastad yn ddiwrnod pwysig yng nghalendr Ysgol Garth Olwg a doedd eleni ddim yn eithriad. Cafwyd hoff ganeuon athrawon eu harddangos ar eu drysau, gigiau a discos amrywiol. Gwnaeth dau fand B111 - Rhyddid a Lan Stâr berfformio i flwyddyn 5 a 6, perfformiodd Miley Goss a Cadi Desouza i'r Ysgol



Isaf a chafodd gig ei drefnu gan Menter Iaith RCT efo Iestyn Gwyn Jones a'r Band i flwyddyn 7. Yn ogystal â hyn cafwyd discos amrywiol i flynyddoedd 3 a 4 / 5 a 6 a disco tawel i flwyddyn 7/8. Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl ac yn ffordd wych o ddathlu'r ystod eang o Gerddoriaeth Cymraeg.



Taith y Côr

Mwynheuodd blant côr bl 3-6 noson ym Mae Caerdydd ar ddiwedd mis Ionawr. Roedd y plant wrth eu boddau yn canu, chwarae bowlïo deg a chwarae Bingo. Roedd ymddygiad y disgyblion yn wych!



Disgo Tawel

Diolch i'r Urdd am drefnu disgo tawel i ddisgyblion B1wyddyn 1 a 2 ar gyfer diwrnod Coch, gwyn a gwyrdd!

Ysgol Garth Olwg (parhad)

Roedd pawb wedi mwynhau canu a dawnsio i gerddoriaeth Gymraeg.



Eisteddfod 'Dewis' i'r Urdd

Diolch i Mrs Bode a Mr Gruffudd am feirniadu ein Heisteddfod dewis. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gafodd eu dewis i gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Gylch.



Dathliadau Gŵyl Dewi

Cafodd ddisgyblion yr Ysgol Isaf hwyl yn eu gwisgoedd Cymreig wrth berfformio o flaen ei gilydd mewn paratoadau i'r Eisteddfod Ysgol.



Cystadleuaeth Dadlau Rhwydwaith Seren i flwyddyn 9

Da iawn i dîm siarad cyhoeddus blwyddyn 9 am weithio mor galed dros yr wythnosau diwethaf yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth dadlau rhwydwaith Seren. Llwyddoch chi i gynnal dadleuon aeddfed a threiddgar yn erbyn nifer o ysgolion gwahanol gan ddangos parodrwydd a pharch wrth weithio mewn tîm. Er y canlyniad, rydym ni wedi cyfoethogi nifer o sgiliau ac edrychwn ni ymlaen at gystadlu yn y dyfodol. Arbennig, da iawn chi!



Gweithdy Siarad Cyhoeddus – Blwyddyn 10

Yn ddiweddar, aeth timoedd Siarad Cyhoeddus blwyddyn 10 i Ysgol Llanhari er mwyn paratoi ar gyfer cystadleuaeth dadlau a fydd yn digwydd yn yr Haf. Treuliodd y disgyblion y bore yn gwrando ar enghreifftiau er mwyn deall gofynion y dasg a chafodd pawb y cyfle i ddadlau dwywaith yn erbyn ysgolion eraill yn y Sir. Mae'n rhaid canmol y disgyblion am eu brwdfrydedd a'u hymdrech wrth baratoi a chymryd rhan. Diolch yn fawr i Ysgol Llanhari am gynnal y gweithdy ac rydym yn edrych ymlaen at gymryd rhan yn y gystadleuaeth tymor nesaf.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari

Da iawn i dîm siarad cyhoeddus Blwyddyn 12 ar gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Cymraeg y rotari. Roedd y tîm yn wych a llongyfarchiadau



mawr i Miley Goss ar ddot yn fuddugol fel cadeirydd gorau'r gystadleuaeth.

Eisteddfod Ddawns ac Offerynnol Rhanbarth yr Urdd

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yn yr Eisteddfod a da iawn i bawb a gystadlodd. Dyma'r canlyniadau:

Dawns Unigol bl 7-9 1af Annabelle, 2il Rhianwen, 3ydd Atlanta
Triawd dawnsio 1af i Anabelle, Rhianwen ac Atlanta, 2il i Ella-Rose ac Eilwen
2il i'r ddawns greadigol 1af i Twm Pike ar y piano bl 10-13
1af i Manon Thompson ar y Delyn bl 7-9
1af i Elis Jones ar y drymiau a'r gitar bl 10-13
2il i Ava Carroll ar y drymiau bl 6 ac iau



Clwb Dawns yn cystadlu yn yr Eisteddfod



Menter Caerdydd



Mis Mawrth gyda'r Mentrau

O glwb gwyddbwyll newydd i blant i sesiynau sgwrsio, dyma gipolwg ar rai o weithgareddau Menter Caerdydd.

Laffwyl a Laffwyl Bach

Daniel Glyn, Beth Jones, Laurie Watts-Keane a Gwenno Dafydd fydd yn cadw cwmni i'r MC Aled Richards yn y Laffwyl nesaf ar nos Iau, 27 Mawrth yn Nhafarn Parc Fictoria. Mae tocynnau ar gael am £10 o wefan Menter Caerdydd ond yn debygol o werthu'n gyflym.

Mewn datblygiad cyffrous, bydd aelodau ifanc y teulu hefyd yn cael 'laff' mewn digwyddiad arbennig brynhawn Sadwrn, 29 Mawrth yn y Pafiliwn Grange. Daniel Glyn, Aled Richards a Beth Jones fydd yn codi'r hwyl yn Laffwyl Bach gyda'r tocynnau ar gael ar y wefan am £8.

Sgwrs y Mis

Llyfr newydd am y Goresgyniad yn Sir Benfro ym 1797 fydd dan sylw yn ein sgwrs Zoom nesaf, nos Lun, 24 Mawrth. Bydd yr awdur, Dr Hywel M Davies, yn canolbwyntio ar fywydau tair menyw oedd yn ganolog i'r digwyddiadau; Jemima Nicholas, Nansi Jones, a Mary Williams. Wrth olrhain eu hanes, cawn ddo i ddeall ochr ddifrifol a threisgar y Goresgyniad sydd yn aml yn cael ei bortreadu fel digwyddiad chwedlonol, lled-gomig. Bydd y cyflwyniad yn amlygu argraff gymdeithasol a diwylliannol goresgyniad Ffrainc mewn cyd-destun hanesyddol. Yn ogystal, cawn glywed sut ysbrydolodd Goresgyniad y Ffrancwyr ffigurau llenyddol gwahanol iawn eu naws - o Wilkie Collins i Ceiriog a Harri Webb.

Siaradwyr Newydd a Sesiynau Sgwrsio

Ydych chi'n dysgu Cymraeg neu'n awyddus i gael sgwrs dros baned? Cofiwch am ein sesiynau sgwrsio rhad ac am ddim:

Hyb Ganolog – bob prynhawn Iau am 3.00 – pob lefel

Hyb Rhydpennau bob yn ail fore Iau (13 a 27 Mawrth am 10.30 – pob lefel)

Hyb Rhiwbeina bob yn ail fore Gwener (7 a 21 Mawrth am 10.30 – Mynediad)

Zoom – dydd Gwener, ola'r mis (28 Mawrth am 10.30, pob lefel)

Byddwn hefyd yn ymuno â chriw Dysgu Cymraeg Caerdydd a thim Addysg Amgueddfa Sain Ffagan ar fore Gwener, 7 Mawrth i fwynhau llu o weithgareddau i ddysgwyr.

Prynhawn Cymraeg i'r Teulu – Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sadwrn, 22 Mawrth, 14.00-16.00. Am ddim.

Ydych chi'n nabad rhywun sy'n dysgu Cymraeg neu'n awyddus i ddysgu'r iaith gyda'u plant? Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd yn cynnal 'Prynhawn i'r Teulu' ar y cyd â Menter Caerdydd ac Amgueddfa Cymru, fydd yn llawn cyngor defnyddiol ar gyfer siaradwyr newydd a'r di-Gymraeg. Yn ogystal â chwrdd â rhieni eraill sy'n dysgu neu eisiau dysgu Cymraeg, bydd cyfle i glywed am yr ystod eang o lyfrau sydd ar gael i ddarllen gyda'r rhai bach. Bydd cynrychiolydd o S4C yn dangos y llu o adnoddau sy'n cyd-fynd â rhaglenni Cyw a bydd sesiwn ganu i'r holl deulu yng nghwmni 'Caru Canu'.

Clwb Gwyddbwyll i Blant

Mae Menter Caerdydd yn lansio Clwb Gwyddbwyll newydd i blant blynyddoedd 3 - 6, bob nos Wener ar ôl ysgol yn Hyb Treganna. Dyma glwb cynhwysol a chyfeillgar ar gyfer plant sydd eisiau dechrau chwarae gwyddbwyll neu sydd ag ychydig o brofiad yn barod. **Cost:** £5 am 4 wythnos ac mae'r sesiwn gyntaf ar 14 Mawrth.

Amser Stori ar gyfer plant bach a'u teuluoedd

O 10 Mawrth, cynhelir Amser Stori newydd yn Hyb Rhydpennau bob yn ail fore Llyn yng nghwmni Nia, un o'n gwirfoddolwyr brwd. Bydd Nia yn disgwyl amdanoch yn y Llyfrgell am 11.00 am hanner awr o stori a sgwrs. Bydd y sesiynau wythnosol arferol yn parhau mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas y briffddinas a'r Fro. Ewch i'r wefan i weld ble a phryd mae'r sesiwn fwyaf cyfleus i chi! mentercaerdydd.cymru/cy/rhiant-a-phlentyn

Am fwy o fanylion am ein sesiynau ar gyfer oedolion, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

I ddarllen mwy am ein gweithgareddau i blant, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

Gwefan: mentercaerdydd.cymru

Facebook: [@m.caerdydd](https://www.facebook.com/m.caerdydd) Instagram: [@mentercaerdydd](https://www.instagram.com/mentercaerdydd)

E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

Taith Dywys

BORE MAWRTH
06.05.25
AM DDIM



- Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3AP.

- 10:30-12:30. Rhad ac am ddim.

- Cyfle unigryw i ymweld â'r adeilad hardd hwn a chlywed ei hanes.

I gofrestru: mentercaerdydd.cymru/oedolion

Gwybodaeth: rachel@mentercaerdydd.cymru



NIFEROEDD YN GYFYNGEDIG.
RHAID COFRESTRU O FLAEN LLAW.

MC - Rhif Eilun: 1098606. Rhif Cwmni: 4578565
MIBM - Rhif Eilun: 179555. Rhif Cwmni: 08867706

Ysgol Llanhari (Parhad)

Taith Blwyddyn 7

Diwrnod addysgiadol i flwyddyn 7 ym Mharc Treftadaeth y Rhondda yn dysgu am fywyd yn ystod y Chwilio Diwydiannol ac effaith y pwll glo hwn ar bobl a'r ardal leol. Mwynheon nhw'r daith cerdded a'r profiad o fynd o dan ddaear.



Tîm Dadlau

Llongyfarchiadau i'r tîm dadlau a ddaeth yn ail mewn cystadleuaeth agos iawn yn ddiweddar. Gwych!

